



LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

Llwyddiant pellach gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae'n bleser cyhoeddi ein bod wedi ennill grant arall gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri dan gynllun Y Rhyfel Byd Cyntaf: ddoe a heddiw. Bydd hyn yn ein galluogi i edrych ar fywydau

menywod yng Nghymru yn ystod y Rhyfel. Y teitl swyddogol yw Menywod yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf: y profiad Cymreig.

Amcan y prosiect yw chwilio am a sganio'r defnyddiau sydd wedi goroesi ac a gadwyd gan fenywod yn ystod y cyfnod hwn. Ffotograffau yw'r defnyddiau amlycaf, ond rydym yn chwilio hefyd am ddogfennau swyddogol a llythyron, dyddiaduron, tystysgrifau, gwybodaeth am bensiynau ac unrhyw beth arall all daflu goleuni ar fywydau menywod y cyfnod. Bydd rhai o'r menywod hyn wedi bod yn gwneud gwaith rhyfel: yn nyrsys, merched y tir, gweithwyr ffatrioedd arfau, ar gludiant cyhoeddus ac mewn swyddi eraill; bydd bron pob un ohonynt yn fam, yn wraig, yn gariad neu'n ferch i ddynion yn y lluoedd arfog; a bydd y Rhyfel wedi effeithio arnynt oll. Gall eraill fod yn ffoaduriaid, neu'n wragedd neu ferched i 'estroniaid'. Mae pob math o gofnod yn bwysig. Cafodd bywydau cymaint o fenywod yng Nghymru eu trawsnewid am byth gan eu profiadau, ond erys y cofnodion materol yn brin.

Sut gallwch chi helpu

Mae hwn yn brosiect Cymru gyfan, a gobeithio y bydd aelodau ledled Cymru yn cymryd rhan. Mae tair prif ffordd y gallwch chi helpu.

- Ewch ar drywydd defnyddiau yn eich teulu eich hun, neu sy'n eiddo i gydnabod. Cysylltwch â ni ac fe ddwedwn ni wrthoch chi beth i'w wneud.
- Os oes gennych unrhyw gysylltiad ag amgueddfa, canolfan dreftadaeth neu fudiad tebyg, trefnwch sioe ar daith un prynhawn i annog aelodau'r cyhoedd i ddod â'u defnyddiau i'w rhannu a'u sganio. Unwaith eto, cysylltwch â ni a byddwn yn eich helpu.
- Os ydych yn aelod o grŵp - U3A, Cymdeithas Hanes Lleol, Sefydliad y Merched, Merched y Wawr, a.y.b.- trefnwch gyfarfod bach, o 6-10 person sydd â diddordeb i edrych ar y defnyddiau y byddwn ni wedi eu darparu, i brocio'r cof am gymeriadau a storïau yn eu teuluoedd hwy.
- Er nad prosiect hanes llafar yw hwn, efallai y dewch ar draws hanesion i'w cadw a'u recordio. Mae gennym beiriannau digidol (diolch i brosiect Lleisiau o Lawr y Ffatri) a gall eraill eich helpu i'w defnyddio



Lottie Davies
VAD Caerffili
Llun: Mary Davies

Gobeithio hefyd y bydd aelodau eraill yn barod i helpu mewn ffyrdd gwahanol e.e. trwy gydlynu digwyddiadau yn eu hardaloedd neu gyda'r recordio a'r sganio. Byddwn yn talu costau postio a theithio. Gall nifer o aelodau'r Archif gyfrannu at y prosiect hwn, a'i fwynhau ar ba lefel bynnag.

Mae'r darluniau ar y dudalen hon wedi'u hanfon atom gan bobl a glywodd am y prosiect hwn. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r perchnogion, gan obeithio mai dyma'r cyntaf o lawer a ddaw i law. Nid yw hanes nifer fawr o fenywod o Gymru a oedd yn byw yn y cyfnod hwn wedi'i gofnodi eto, gobeithiwn gynorthwyo i sicrhau lle iddynt yn hanes yr 20fed ganrif.



Margaret Ann Lloyd a'i ffrind yn Ffatri Ffrwydron Mannesman, Abertawe.
Llun gan Betty Francis

'A Woman's Work is Never Done'

Beth amser yn ôl cawsom e-bost trwy ein gwefan oddi wrth fenyw yn byw ym Mro Morgannwg (y cyfeiriad ati trwy ei llythrennau cyntaf, SH). Noda ei bod wedi bod yn pori trwy lyfrau ail-law ar hanes menywod ac wedi dod ar draws copi o *A Woman's Work is Never Done*, gan Elizabeth Andrews, a phrynodd ef. Ar ôl ei agor, gwelodd '*Elizabeth Andrews, April 1957*' mewn llawysgrifen ar y dudalen flaen. Yn y flwyddyn 1957 y cyhoeddwyd hunangofiant Elizabeth Andrews, a sylweddolodd SH mai copi Elizabeth ei hun oedd hwn, mwy na thebyg, copi a gawsai gan y cyhoeddwyr. Mae'r llyfr a'r clawr llwch yn gyfan, er wedi treulio tipyn. Ysgrifennodd SH at AMC/WAW i ddweud ei bod yn sylweddoli gwerth y copi arbennig hwn, a chredai y dylai gael ei gadw'n ddiogel. Wrth gwrs, fe dderbynion ni e'n ddiolchgar, ac ychydig wedyn cyrhaeddodd y llyfr yn y post. Caiff ei roi yn Llyfrgell Glowyr De Cymru, a'i gadw gyda'r llyfrau prin yno, man addas gan i Elizabeth Andrews wneud cymaint i wella bywydau menywod a dynion yn y cymunedau glofaol.

[Yn 2006, cyhoeddodd Honno argraffiad newydd o *A Woman's Work is Never Done*, gyda rhagair gan y Farwnes Glenys Kinnock - sy'n edmygu Elizabeth Andrews yn fawr ac sy'n aelod cynnar o AMC/WAW, ac a olygwyd gan ein sylfaenydd, Dr Ursula Masson. 2006, Honno Classics]

Jenny Sabine

Darlith Goffa Ursula Masson 2015

Caiff y digwyddiad blynyddol hwn ei redeg gan Brifysgol De Cymru gyda chefnogaeth AMC/WAW a NewLaw Solicitors. Croesawodd Diana Wallace, a drefnodd y digwyddiad gyda'i chydweithwyr, tua 80 o bobl i Neuadd Moot yn Nhrefforest ar ddydd Gwener 6 Mawrth.

Cyn y brif ddarlith ceir teyrnged ychwanegol i Ursula, ac eleni siaradodd Jenny Sabine yn fyr am sut yr oedd Ursula a Deirdre Beddoe wedi sylweddoli'r angen i sefydlu AMC/WAW, ac amlinellodd waith yr Archif. Yna adroddodd Gail Allen a Jen Wilson - gan ddisgrifio'u hunain fel 'goroeswyr olaf Grŵp Hanes Menywod Abertawe' - hanes teimladwy a difyr sut y bu i arweiniad a brwdfrydedd Ursula arwain at greu'r fideo *Smiling & Splendid Women* am grwpiau cefnogi'r menywod yn ystod Streic y Glowyr yn yr 1980au. Prawf o ddylanwad parhaol Ursula ar ddiwylliant poblogaidd yr 21ain ganrif yw'r ffaith fod y cwmni ffilm Like An Egg wedi dewis defnyddio clipiau o *Smiling & Splendid* yn fideo'r Manic Street Preachers y llynedd, a bod *Smiling & Splendid Women* yn dal yn adnodd a ddefnyddir gan haneswyr heddiw.

Traddodwyd y ddarlith gan Neil Evans, Cymrawd Ymchwil Anrhydeddus yn Hanes Cymru ym mhrifysgolion Caerdydd a Bangor a ffrind ac un fu'n cydweithio ag Ursula. Teitl y ddarlith oedd "'We are a Happy Company": the Culture of Women's Movements in Wales' a chanolbwyntiodd ar gyfranogiad Cymry i Bererindod Rhyddfrefinio Menywod, 1913, pryd y gorymdeithiodd grwpiau o fenywod, swffragwyr cyfansoddiadol yn bennaf o ledled Prydain, i Lundain i ymuno mewn rali fawr yn Hyde Park.

Eglurodd Neil sut y bu ef ac Ursula yn cydweithio i drawsgrifio adroddiad o'r Bererindod. Cyflwynodd ei ddarlith adroddiadau o adrannau de a gogledd Cymru y Bererindod, a sut y dylanwadodd ar ddefnydd menywod o le cyhoeddus. Er gwaethaf traddodiad 'sfferau ar wahân', mae'n amlwg fod menywod dosbarthiadau gweithiol a chanol yr 19eg ganrif yn symud yn rhydd mewn trefi ac ardaloedd gwledig wrth wneud eu gwaith domestig ac wrth eu gwaith. Fodd bynnag, denodd campau'r swffragetiaid milwriaethus anghymeradwyiaeth ohonynt hwy a'u hachos, a defnyddiwyd i wyrddroi'r farn gyhoeddus yn erbyn y mudiad rhyddfrefinio. Swffragwyr cyfansoddiadol (yr NUWSS) drefnodd y Bererindod i arddangos grym rheswm nid trais, i ennill cydymdeimlad a chefnogaeth. Cyhoeddodd nhw 'efengyl rhyddfrefinio menywod' mewn termau crefyddol gan osgoi unrhyw arlliw o ffanatigiaeth, ac eto roedd eu parodrwydd i siarad yn gyhoeddus a defnyddio'r prif ffyrdd trwy drefi a phentrefi yn brawf o'u hawl i gael eu trin yn gyfartal â dynion.

Ystyriodd Neil effaith hirdymor y Bererindod ar ddiwylliant mudiadau menywod ar ddiwedd yr 20fed ganrif: y defnydd o symbolaeth; effaith rhyddhaol defnyddio dulliau protest newydd; chwaeroliaeth a chyd-gefnogaeth; yr hyder a geir trwy addysg a dysgu sgiliau newydd. Mae'n amlwg fod llawer o'r pererinion yn cofio'r Bererindod fel achlysur hapus.

Gofynnodd, a oes unrhyw nodwedd arbennig yn perthyn i fudiadau menywod sy'n wahanol i fudiadau eraill e.e. y mudiad undebau llafur? Ydy hynny oherwydd cyfeillgarwch menywod, neu'r ffaith fod angen i fenywod fod yn ddewr i fentro i'r gofod cyhoeddus? Sut, tybed, y byddai Ursula wedi ymateb i'r cwestiwn hwn? A darganfu ei hateb yn ei chyflwyniad i'r casgliad o weithiau am ryddfrefinio yn *The Very Salt of Life**

Ar ôl y ddarlith, cafwyd derbyniad gwin a bwffe blasus, a chyfle i sgwrsio, rhyngweithio a hel atgofion. Roedd y digwyddiad cyfan yn ddatiliad llawen o waith a dylanwad parhaol Ursula.

[**The Very Salt of Life: Welsh Women's Political Writings from Chartism to Suffrage*, golygwyd gan Jane Aaron & Ursula Masson. 2007, Clasuron Honno.]

Jenny Sabine

LLEISIAU O LAWR Y FFATRI – YR ADRODDIAD TERFYNOL!

Maddeuwch i mi os ydw i'n swnio braidd yn orfoleddus yn yr erthygl hon ond rwy'n credu bod gennym fel Archif le i ymfalchio'n fawr yn llwyddiant digamsyniol y prosiect 'Lleisiau o Lawr y Ffatri'. Mae'r ffeithiau moel yn dweud rhan o'r stori: 210 o gyfweiliadau, gan 3 Swyddog Maes ac 28 o wirfoddolwyr; y siaradwyr yn cynrychioli 208 o ffatrioedd gwahanol o bob rhan o Gymru; y cyfan wedi'u hadysgrifio'n ofalus gan roi testun sydd dros filiwn o eiriau o hyd i ni, a thua 400 o luniau wedi'u sganio a'u cynnwys yn y metadata manwl a gadwyd o'r prosiect cyfan. Yr archif hon fydd yn cael ei chadw yn awr yn Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Ond erbyn hyn mae'r prosiect gwreiddiol, uchelgeisiol wedi datblygu ymhellach. Mae gennym ein gwefan arbennig www.lleisiaumenywodffatri.cymru lle gellir darllen crynodebau o'r rhan fwyaf o'r cyfweiliadau ynghyd â'r adysgrifau eu hunain, pori trwy'r lluniau, gwrando ar leisiau rhai o'r siaradwyr, gwyllo ambell stori ddigidol a mwynhau ffilm fer sy'n crisialu hanfod y prosiect cyfan. Bu'r tair swyddog maes, Catrin, Kate a Susan yn weithgar tu hwnt ers dechrau 2015 yn rhoi o'u harbenigedd yn hael i sicrhau ein bod yn cyrraedd y nod hwn. Dyma'r llwyddiant y byddwn ni'n ei ddathlu yn ystod prynhawn lansio'r Adroddiad Terfynol a'r wefan ar Fawrth 25 yng Nghanolfan Soar, Merthyr Tudful.

Mae hanesion difyr tu hwnt gan y Lleisiau o Lawr y Ffatri i'w hadrodd. Soniant am y cyfeillgarwch, peryglon y gwaith, y ddisgyblaeth yn y ffatrioedd, mor hawdd oedd hi i newid job, y rhaniadau dosbarth, seremonïau derbyn, chwarae triciau a cheir ambell ramant hefyd. Cawn ein taflu'n ôl i'r pump a'r chwedegau wrth i'r menywod gofio morio canu caneuon poblogaidd y cyfnod i gyfeiliant radio neu chwaraewr recordiau i helpu lleddfu undonedd y gwaith. At hyn, croniclir y newidiadau mawrion a ddigwyddodd ym myd gwaith yn ystod y cyfnod, megis cyflwyno rheoliadau iechyd a diogelwch, dylanwad cynyddol yr undebau llafur, a mater tâl cyfartal am waith cyfartal. Ychwanega'r agweddau hyn ddimensiwn arall at storiâu personol ac unigryw'r menywod.

Pleser pur fu gweithio ar y prosiect hwn a gwn y bydd yn adnodd pwysig i'n haneswyr ac i haneswyr hanes menywod yn y dyfodol. Mae'n drysorfa amhrisiadwy. Beth am ymweld â'r wefan felly a gwrando ar a gwerthfawrogi lleisiau'r menywod cyffredin, anghyffredin hyn wrth iddynt siarad â ni o lawr y ffatri?

Catrin Stevens (Cydlunydd y Prosiect)



WELSH WOMEN'S CLASSICS
Betsy Cadwaladr: A Balaclava Nurse
An Autobiography of Elizabeth Davis
Edited by Jane Williams (Tygeffil)
With an introduction by Deirdre Beddoe

Ychydig dros flwyddyn yn ôl, aeth cais ar led oddiwrth Honno, Gwasg Menywod Cymru, yn gofyn am help i ariannu argraffiad newydd o stori bywyd Betsi Cadwaladr. Mewn unrhyw oes, byddai bywyd Betsi Cadwaladr wedi bod yn un nodedig tu hwnt, ond yn y 19 ganrif roedd ei bywyd anturus yn un gwirioneddol hynod. Teithiodd ar draws y byd gan weithio yn nyrs yn ysbyty'r fyddin yn Balaclafa adeg rhyfel y Crimea. Cyhoeddwyd ei hunangofiant am y tro cyntaf yn 1857. Ail-gyhoeddodd Gwasg Honno yr union gyfrol yn 1986, gan ei chadw mewn print am y 25 mlynedd nesaf. Yn ystod y cyfnod hwn, enwyd un o fudiadau iechyd mwyaf Cymru ar ei hôl (Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a leolir yng Ngwynedd a Chlwyd) a dysgwyd ei hanes mewn ysgolion ledled Cymru.

Eleni, diolch i'r gefnogaeth a gafwyd gan y rhai a gyfrannodd i'r gronfa i ddwyn stori Betsi i'r amlwg am yr eildro, a gyda help Cyngor Llyfrau Cymru yn ogystal, gellir darllen am Betsi unwaith eto. Mae'r argraffiad newydd yn cynnwys yr holl destun gwreiddiol, y cyflwyniad gwreiddiol gan Jane Williams yn sôn am gefndir

cymdeithasol a chrefyddol Betsi, a chyflwyniad ychwanegol gan yr hanesydd menywod blaenllaw, Deirdre Beddoe. Yn ychwanegol, mae ynddi gyflwyniad lle mae Jane Williams yn disgrifio sut y bu iddi hi a Betsi gydweithio ar y testun, ynghyd â nodiadau yn esbonio i ddarllenwyr modern y cyfeiriadau sydd yn y llyfr at ddigwyddiadau a phobol y 19 ganrif.

Bydd Honno yn lansio'r argraffiad newydd hwn yn Abertawe (ymwelwch a'r wefan www.honno.co.uk am fanylion llawn) ar 21ain Mai, a mawr obeithiwn gael eich cwmni yno.

Diolch yn ddiffuant am eich cefnogaeth, ac am gefnogaeth Archif Menywod Cymru, ac wrth roi diolch i chi, rydym yn cynnig yr argraffiad newydd hwn am £10 gan gynnwys postio (i'r DG yn unig) i aelodau'r Archif (y pris fel arall fydd £11.99). Gallwch dalu drwy anfon sic e i Honno, 14 Unedau Creadigol, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3GL

Helena Earnshaw

Ysgol undydd ar y cyd AMC/WAW a Llafur

Cynhelir ail ysgol ar y cyd rhwng AMC/WAW a Llafur ar ddydd Sadwrn 4^{ydd} Gorffennaf yn Amgueddfa Lofaol Big Pit, Blaenafon, rhwng 10yb a 4yh. Pwnc y dydd fydd **Grwpiau Cymorth Streic y Glowyr 1984-85**. Mae'r rhaglen wrthi'n cael ei pharatoi ond bydd yn cynnwys dangos y ffilm '*Smiling and Splendid Women*' a gynhyrchwyd gan Ursula Masson, Gail Allen a Jen Wilson.

Bydd manylion pellach, y rhaglen a'r ffurflen archebu lle ar ein gwefan yn fuan.

'Rhyfel y Cymraësau: Arestio Gwragedd a Chariadon'

Yn 1891 cyflwynodd UDA dollau masnach ar nwyddau o dramor. Cafodd hyn effaith ddifrifol ar ddiwydiant tunplat de Cymru a fuasai'n dominyddu masnach y byd. Arferai gwerth degau ar filiynau o ddoleri o dunplat gyrraedd America bob blwyddyn, tra'r oedd y cynnyrch cartref yn fychan. Collodd llawer eu swyddi yn ne Cymru ac ymfudodd llawer o weithwyr tunplat i UDA i gyflenwi'r galw am weithwyr creffts yn y diwydiant. Cyn pen dim dilynodd eu gwragedd, eu chariadon a'u mamau hwy.

Yn Chwefror 1910 adroddodd y *South Wales Daily Post* a'r *Cardiff Times* hanes streic ym Melin New castle, Pennsylvania. Roedd hon yn rhan o anghydfod diwydiannol llawer ehangach yn dilyn cwtdogi ar gyflogau, ac a barhaodd am 14 mis. Arestiwyd 26 o fenywod o Gymru a'u cyhuddo o 'ddirmyg llys a thorri gorchymyn trwy ddychryn a brawychu personau a gyflogid gan weithfeydd yr American Steel and Tinplate Co'. Mae'r ddau bapur yn rhestru enwau'r menywod, y mwyafrif ohonynt fe ymddengys yn Gymry. Honnir eu bod yn dod o Lanelli, Treforys, Aberafan a Sir Fynwy:

Margaret Thomas,	Jennie Phillips,
Anna C. Jones,	Hannah Beavan,
Dallis L. Douglas,	Mary H. Thomas,
Maude P. Parsons,	Catherine Marshall,
Mary Phillips,	Sophia Williams,
Catherine Allsopp,	Mariah Hill,
Elizabeth Morgan,	Ellen O'Donnell,
Elizabeth Eckhart,	May Williams,
Tillie Morgan,	Margaret Reese,
Myrtle Doyle,	Rachel James,
Catherine Harper,	Mary Jenkins,
May Pemell,	Margaret Bowen,
Elizabeth A. Evans,	Susan Thomas.

Sut aethon nhw ati i ddychryn a brawychu? Anogon nhw blant i daflu peli eira at dorwyr y streic, gwthion nhw ddynion oddi ar y palmentydd ac yn olaf, yn ôl y tyst James Morris, 'pan oedd e'n mynd i'w waith ym Melin Shenang daeth menywod i fyny ato a galw enwau arno yn Gymraeg' (er y galla fod Morris ei hun yn Gymro ac yn siarad Cymraeg). Yn anffodus, 'Cafodd y gwrandawriad ei ohirio pan adawodd y post America' a dydyn ni ddim yn gwybod y canlyniad.

Ymddengys i ymddygiad y menywod gael peth cefnogaeth gan y wasg Gymreig. Meddai'r *Cardiff Times* 'Mae'r ymdrech wedi mynd rhagddi yn llwyddiannus iawn, mae wyth o'r 11 torwr-streic wedi gadael y gwaith. Bu gwragedd, mamau a chariadon y streicwyr yn helpu yn y cyswllt hwn, gan brofi eu bod yn fwy penderfynol na'r dynion hyd yn oed i wrthwynebu'r Ymddiriedolaeth.'

Cyf.. *Cardiff Times* 19 Chwefror 1910; *South Wales Daily Post* 17 Chwefror 1910;

Gwelir y papurau newydd hyn yn adran Papurau Newydd Cymru Ar Lein ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru: <http://welshnewspapers.llgc.org.uk/en/home>

Galw am bapurau: Cynhadledd AMC, Abertawe 10^{fed} – 11^{eg} Hydref 2015

Gwahoddir papurau ar unrhyw agwedd ar hanes menywod yng Nghymru gan haneswyr, archifyddion acn unrhyw un sydd â diddordeb mewn hyrwyddo hanes menywod yng Nghymru i'w cynnwys yn rhaglen y gynhadledd. Croesewir cynigion gan ymchwilwyr newydd a myfyrwyr yn arbennig.

Gall papurau amrywio'n eu hyd o 15 i 45 munud, ond bydd y mwyafrif tua 30 munud. Dylai cyfranwyr anfon crynodeb o tua 150-200 gair yn amlinellu'r prif themâu i'w trafod.

Dylai argymelliadau fod i mewn erbyn **Gwener Mai 15ed 2015**.

Nodwch y newid cyfeiriad post isod.

Croesewir cyfraniadau i'r Cylchlythyr gan bob aelod. Os gallwch anfon eich cyfraniad yn ddwyieithog gwerthfawrogir hynny'n fawr. Anfonwch eich cyfraniadau at :

newsletter@womensarchivewales.org

**Dyddiad cyflwyno ar gyfer y rhifyn nesaf
Dydd Gwener 22^{ain} Mai 2015**

Os hoffech gopi print bras o'r Cylchlythyr hwn, yn Gymraeg neu Saesneg, cysylltwch â Caroline ar y cyfeiriad epost uchod neu ar y ffôn 01873 890540.

Golygwyd y Cylchlythyr hwn gan Caroline Fairclough, cyfieithydd: Catrin Stevens